

Cwestiynau Cyffredin

Gweminar Trosolwg Cyffredinol o
Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol



Cwestiynau a Ofynnwyd

Fe ymunais â'r cynllun yn ddiweddar. A ddylwn ddisgwyl pecyn croeso?	4
Allwch chi egluro mwy am sut mae'r trosglwyddiad yn cael ei wneud i'r gronfa bensiynau? Pwy sy'n talu i'n cyfrif?	4
Alla i oedi dechrau fy mhensiwn a pharhau i wneud cyfraniadau?	4
Sut allwn ni gael ein datganiad buddion blynyddol?	4
A wnaeth y newidiadau dros y blynyddoedd i'r CPLIL roi mwy o fuddion i'r gweithiwr?	4
Sut ydych chi'n cyfrifo Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ECGA 1/49? Beth mae'n ei olygu?	5
Beth os oes gen i gofnod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gohiriedig o 30 mlynedd yn ôl, yn ogystal â chofnod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol presennol o 2009. A fyddai'r ddau yn y braced 1/60?	6
Os oes gennych aelodaeth yn y fersiwn 1/60 o'r cynllun cyflog terfynol, sut mae hynny'n gweithio?	6
Os oes gennych aelodaeth yn y fersiwn 1/80 o'r cynllun cyflog terfynol, sut mae hynny'n gweithio?	6
Allwch chi eglur McCloud yn gryno?	7
A fydd buddion gohiriedig o'r Cynllun CPLIL blaenorol yn cael eu cynnwys yn Natganiad Blynyddol y flwyddyn nesaf?	7
Mae gen i CPLIL o swydd arall y gadawais flynyddoedd yn ôl. A oes modd cyfuno dau neu fwy o bensiynau CPLIL? Os oes, sut alla i drosglwyddo un pensiwn CPLIL i un arall?	8
Pan fyddwch yn ystyried trosglwyddo pam nad allwch gael y gwerth?	8
A oes modd trosglwyddo pensiwn blaenorol i'r pensiwn CPLIL? Er enghraifft, y GIG, cynllun pensiwn preifat, gwasanaeth sifil, pensiynau galwedigaethol y sector preifat, pensiwn banc?	8
A oes modd trosglwyddo Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol i'r prif gynllun pensiwn CPLIL a beth yw'r manteision?	9
Os ydw i wedi trosglwyddo fy mhensiwn o bensiynau preifat neu alwedigaethol i fy nghofnod CPLIL. Sut caiff hyn ei dalu pan fyddaf yn ymddeol? A yw'n daliad ar wahân neu a yw'n gysylltiedig â fy mhensiwn CPLIL ers ymuno â'r cynllun?	9
Gall holl aelodau'r cynllun CPLIL wneud cais am CPY neu CGY (neu yw hyn yn dibynnu ar gynllun cyflogwr/lleol)?	10
Os hoffech wneud cyfraniadau ychwanegol trwy CPY neu CGY, a oes rhaid i'r cyflogwr gynyddu ei gyfraniadau yn unol â hyn? / Os ydych yn prynu CPY a ydych yn derbyn cyfraniadau cyflogwyr ar y rhain hefyd?	10
Sut ydych chi'n ymuno â CPY?	10

Allwch chi gymryd eich pensiwn CGY yn gynt na'ch prif CPLIL? / Allwch chi gymryd eich CGY ar ôl cymryd eich pensiwn CPLIL?	11
Beth yw'r terfyn oedran ar gyfer cyfraniadau ychwanegol?	11
Pa oedran y gallwch ddechrau tynnu eich pensiwn Llywodraeth Leol? Fe grybwyllodd 55, ond roeddwn yn ansicr ynghylch beth oedd hyn.	12
Hoffwn ymddeol yn gynnar yn 62 oed. Alla i gymryd fy mhensiwn gostyngedig ar unwaith?	12
Os ydych yn dewis peidio â chymryd cyfandaliad heb dreth, ydych chi'n colli'r budd di-dreth wrth fynd ymlaen?	12
Efallai y byddaf yn dechrau cymryd pensiwn o gynllun arall. A fydd hyn yn effeithio ar fy mhensiwn CPLIL? Oes angen rhoi gwybod i'r CPLIL? Byddaf yn parhau i weithio ac i dalu i'r CPLIL.	12
Rwyf wedi drysu gyda'r rheol 85 mlynedd. Rwy'n credu ei fod dan ddisgresiwn y cyflogwr cyn 60 oed ond yn orfodol ar ôl 60. Sut mae'r diogeliad hwn yn gweithio ar rannau gwahanol o'r pensiwn?	13
Pe byddwn i'n colli fy swydd a oes cyfrifoldeb ar fy nghyflogwr i barhau i dalu eu cyfraniadau (neu'r elfen cyflogwr a gweithiwr)? Os yw hyn yn gywir, pa mor hir fydd rhaid iddynt wneud y cyfraniadau? A yw hyn at oedran ymddeol y wladwriaeth?	13
A yw'r CPLIL yn gysylltiedig â mynegai?	14
A oes cynnydd blynyddol mewn pensiwn yn ogystal â chynnydd Mynegai Prisïau Defnyddwyr, fel y dangosir ar y Cyfrifiannell Buddion Ar-lein?	14
Pa dystiolaeth sydd ei angen er mwyn i fuddiolwr hawlio'r grant marwolaeth a phensiwn goroeswr?	14
Beth sy'n digwydd os byddwch yn marw a heb briodi neu'n cyd-fyw â phartner?	15
Os yw fy enwebai ar gyfer buddion marwolaeth yn ddinesydd Almaeneg sy'n byw yn yr Almaen ac os allaf ddarparu manylion cyswllt, fydd hynny'n iawn?	15
Os fydda i'n marw ac yn aelod actif, a fy mod wedi enwebu fy ngwraig / gŵr, a yw'r taliad yn un cyfandaliad?	15
Os fydd Deddfau Seneddol yn newid o ran CPLIL pa warantau sy'n diogelu aelodau?	15
Mae llawer o sôn ar hyn o bryd y bydd y Llywodraeth yn trethu cyfandaliadau di-dreth ac ati. A yw'n debygol y gallent wneud hynny a'i ôl-ddyddio ar gyfer y pensiwn cyfan? Allai hyn fod yn swm cyfandaliad awtomatig neu drosi pensiwn i gyfandaliad neu'r ddau?	16
Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol	17

Cyfraniadau a mynediad at ddatganiadau

Fe ymunais â'r cynllun yn ddiweddar. A ddylwn ddisgwyl pecyn croeso?

Dylech. Bydd eich cyflogwr yn rhoi gwybod i'ch cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eu bod yn didynnu cyfraniadau pensiwn gennych chi. Unwaith i'ch cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gael gwybod amdanoch chi, byddent yn creu cofnod pensiwn ac yn anfon pecyn croeso atoch chi gyda ffurflenni i'w cwblhau a manylion ar sut i ddod o hyd i'r canllawiau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar-lein.

Allwch chi egluro mwy am sut mae'r trosglwyddiad yn cael ei wneud i'r gronfa bensiynau? Pwy sy'n talu i'n cyfrif?

Mae gweithwyr a chyflogwyr yn talu cyfraniadau CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r cyfraniadau hyn yn cael eu defnyddio i gyfrifo eich gwerth pensiwn wrth ymddeol, felly nid ydynt yn cael eu talu i'ch cyfrif.

Mae'r cyfraniadau sy'n cael eu talu yn rhoi aelodaeth i chi i'r CPLIL a phensiwn gyda ni pan fyddwch yn ymddeol. Gweler yr adran isod i weld sut y cyfrifir eich pensiwn.

Alla i oedi dechrau fy mhensiwn a pharhau i wneud cyfraniadau?

Os ydych rhwng 16 a 75 oed ac os yw eich contract cyflogaeth am dri mis neu fwy, gallwch dalu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid oes rhaid i chi ymddeol ar oedran pensiwn y wladwriaeth. Gallwch barhau i weithio ac adeiladu eich buddion CPLIL. Byddwch yn cael eich nodi fel ymddeoliad hwyr os ydych yn ymddeol ar ôl eich oedran pensiwn y wladwriaeth.

Sut allwn ni gael ein datganiad buddion blynyddol?

Bydd eich datganiad buddion blynyddol wedi cael ei bostio i chi neu ei gyhoeddi ar eich cyfrif ar-lein (yn dibynnu ar eich dewis cyfathrebu). Rhaid i'ch cronfa CPLIL roi datganiad buddion blynyddol i chi erbyn 31 Awst bob blwyddyn os ydych yn talu cyfraniadau CPLIL ar hyn o bryd.

Cyfrifo Buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

A wnaeth y newidiadau dros y blynyddoedd i'r CPLIL roi mwy o fuddion i'r gweithiwr?

Roedd rhai newidiadau o fudd ac nid oedd rhai o'r newidiadau yn cael eu hystyried o fudd.

Manteision:

- Cyfraddau croniadau wedi gwella felly rydych yn ennill mwy o bensiwn blynyddol gan fod y gyfradd croniad wedi newid o 1/80, i 1/60 a bellach yn 1/49.
- Mae gweithwyr yn cael ymddeol o 55 oed heb ganiatâd y cyflogwr (roedd hyn yn arfer bod yn 60 oed)
- Mae ymddeoliad hyblyg yn rhoi cyfle i weithwyr gymryd y pensiwn maent wedi'i gynilo eisoes, ond parhau i weithio. Er bod angen caniatâd cyflogwr i wneud hyn, mae'r math hwn o ymddeoliad wedi bodoli ers 2006
- Mae priodas un rhyw a chynplau sy'n byw gyda'i gilydd ond heb briodi, bellach yn cael eu cydnabod ar gyfer pensiynau partneriaid sy'n goroesi pan fydd yr aelod CPLIL yn marw
- Cynnydd yn y grantiau marwolaeth
 - Marw yn y swydd 2 x cyflog pensiynadwy tybiedig i 3 x cyflog pensiynadwy tybiedig
 - Marwolaeth aelod gohiriedig o 3 x pensiwn blynyddol a chwyddiant i 5 x pensiwn blynyddol a chwyddiant
 - Marwolaeth pensiynwr o warant 5 mlynedd i warant 10 mlynedd ar daliadau pensiwn (os fyddai'r pensiynwr yn marw cyn 75 oed)

Anfanteision:

- Cyfandaliadau heb dreth awtomatig wedi dod i ben yn Ebrill 2008. (Er bod gan bawb y dewis i gyfnewid peth o'ch pensiwn blynyddol am gyfandaliad).
 - Os ymunoch â'r cynllun pensiwn cyn Ebrill 2008, byddwch yn parhau i fod â chyfandaliad awtomatig, ond yn seiliedig ar aelodaeth pensiwn hyd at 31 Mawrth 2008 yn unig.
 - Os ymunoch ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008, ni fydd gennych gyfandaliad awtomatig
- Cynyddodd yr oedran ymddeol arferol o 65 i oedran pensiwn y wladwriaeth

Y prif resymau ar gyfer y newidiadau oedd er mwyn sicrhau bod CPLIL yn gallu parhau fel cynllun pensiwn. Heb y newidiadau efallai na fyddai'r CPLIL yn bodoli heddiw.

Sut ydych chi'n cyfrifo Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ECGA 1/49? Beth mae'n ei olygu?

Bydd eich cyflogwr yn dweud wrth eich cronfa CPLIL yr hyn rydych wedi'i ennill a'i dalu mewn cyfraniadau pensiwn o un Ebrill i'r llall (1 Ebrill i 31 Mawrth yw blwyddyn cynllun pensiwn). Yna caiff y wybodaeth ei defnyddio i gyfrifo faint o bensiwn yr ydych wedi'i gynilo o un flwyddyn cynllun pensiwn i'r llall. Er enghraifft:

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Blwyddyn y Cynllun	Pensiwn ar ddechrau'r flwyddyn	Cyflog pensiynadwy gros a chyfradd cronni	Pensiwn (ar gyfer y flwyddyn honno)	Pensiwn (wedi'i gronni hyd yma)	Cynnydd o ran chwyddiant	Pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn
Blwyddyn 1	£0.00	£19,600 ÷ 49	£400.00	£400.00	1.20%	£404.80
Blwyddyn 2	£404.80	£23,129 ÷ 49	£472.02	£876.82	-0.10%	£875.94
Blwyddyn 3	£875.94	£25,000 ÷ 49	£510.20	£1,386.14	1.00%	£1,400.00

Byddwch yn parhau i adeiladu eich pensiwn yn y ffordd hon bob blwyddyn, nes i chi stopio talu cyfraniadau CPLIL.

Beth os oes gen i gofnod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gohiriedig o 30 mlynedd yn ôl, yn ogystal â chofnod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol presennol o 2009. A fyddai'r ddau yn y braced 1/60?

Na. Mae'r amserlenni ar gyfer beth sy'n 1/80, 1/60 a 1/49 wedi'i nodi isod:

- Hyd at a gan gynnwys 31 Mawrth 2008: cyflog terfynol 1/80
- 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014: cyflog terfynol 1/60
- O 1 Ebrill 2014: Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (ECGA) 1/49

Os oes gennych aelodaeth yn y fersiwn 1/60 o'r cynllun cyflog terfynol, sut mae hynny'n gweithio?

1 Ebrill 2008 tan 31 Mawrth 2014	Pensiwn Blynnyddol yn unig Aelodaeth mewn blynnyddoedd a diwrnodau ÷ 60 x cyflog pensiynadwy terfynol
---	---

Os oes gennych aelodaeth yn y fersiwn 1/80 o'r cynllun cyflog terfynol, sut mae hynny'n gweithio?

Ar neu cyn 31 Mawrth 2008	Pensiwn blynnyddol Aelodaeth mewn blynnyddoedd a diwrnodau ÷ 80 x cyflog pensiynadwy terfynol Cyfandaliad di-dreth untro 1/ 80 pensiwn blynnyddol x 3
----------------------------------	--

Allwch chi eglur McCloud yn gryno?

Pan wnaeth y CPLIL newid y ffordd roedd yn gweithio o gyflog terfynol i gyfartaledd cyflog yn 2014, ychwanegodd y cynllun ddiogeliad ar gyfer aelodau oedd yn nesáu tuag at ymddeoliad. Roedd y trefniant yn sicrhau bod buddion yr oedd yr aelodau hynny wedi'u hadeiladu hyd at ddyddiad y newid yn aros ar o leiaf yr un gwerth. Fe wnaeth cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus wneud yr un fath.

Fodd bynnag, daeth y Llys Apêl i'r canlyniad yng Nghynlluniau Pensiwn Barnwyr a Diffoddwyr Tân, fod y diogeliad yn gwahaniaethu gan nad oedd y trefniant yn gymwys i aelodau iau. Mae'r dyfarniad hwn yn aml yn cael ei alw'n 'ddyfarniad McCloud'.

O ganlyniad, mae pob cynllun pensiwn sector cyhoeddus, yn cynnwys y CPLIL wedi gwneud newidiadau i ddileu'r gwahaniaethu hwn ar sail oedran. Daeth y newidiadau rheol McCloud i rym ar 1 Hydref 2023 yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bellach mae'r trefniant yn gymwys i holl aelodau sy'n gymwys, beth bynnag yw eu hoedran.

Rydych yn gymwys ar gyfer y newid hwn os:

- Oeddech chi'n talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL neu gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall ar neu cyn 31 Mawrth 2012;
- Oeddech chi hefyd yn talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022; ac os
- Ydych chi wedi bod yn aelod o CPLIL neu unrhyw gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall heb doriad o fwy na 5 mlynedd yn olynol.

Bydd y newid rheol, sef Dyfarniad McCloud, yn tynnu'r gwahaniaethu ar sail oed ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2022.

Gallwch wyllo fideo byr amdano yma:

<https://www.lgpsmember.org/help-and-support/videos/?lang=cymraeg>

Cyfuno Cofnodion CPLIL

A fydd buddion gohiriedig o'r Cynllun CPLIL blaenorol yn cael eu cynnwys yn Natganiad Blynyddol y flwyddyn nesaf?

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch CPLIL presennol am y buddion gohiriedig blaenorol a sôn fod gennych ddiddordeb yn eu cyfuno. Ni chaiff hyn ei wneud oni bai eich bod yn gofyn. Os ydych eisoes wedi dechrau'r broses o gyfuno cofnodion CPLIL, yna dylai hyn gael ei gwblhau mewn amser i gael ei ddangos ar eich datganiad blynyddol 2026.

Mae gen i CPLIL o swydd arall y gadawais flynyddoedd yn ôl. A oes modd cyfuno dau neu fwy o bensiynau CPLIL? Os oes, sut alla i drosglwyddo un pensiwn CPLIL i un arall?

Fel rheol, mae modd ichi gyfuno dau neu fwy o bensiynau yn y CPLIL. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch cronfa bensiwn bresennol am y buddion blaenorol a sôn fod gennych ddiddordeb yn eu cyfuno. Wedyn, bydd eich cronfa bresennol yn cychwyn y drefn o gyfuno'r buddion ac yn cysylltu â'r gronfa arall yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar eich rhan. Efallai y bydd angen i chi lenwi ffurflen i roi caniatâd i'ch cronfa bresennol gysylltu â'r un flaenorol.

Trosglwyddo pensiynau eraill i CPLIL

Pan fyddwch yn ystyried trosglwyddo pam nad allwch gael y gwerth?

Y gwerth trosglwyddo yw'r swm o arian y byddai'r gweinyddwr pensiwn blaenorol yn talu i'ch cronfa CPLIL er mwyn i'r pensiwn gael ei gadw fel pensiwn CPLIL yn lle. Bydd eich gweinyddwr pensiwn blaenorol yn anfon y gwerth trosglwyddo i'ch cronfa CPLIL gan ein bod yn defnyddio'r gwerth trosglwyddo i gyfrifo faint o bensiwn blynyddol y bydd yn rhoi i chi yn y CPLIL. Bydd eich cronfa CPLIL yn eich hysbysu faint o bensiwn blynyddol y bydd yn rhoi i chi. Dylech ddefnyddio'r wybodaeth hon i wneud eich penderfyniad i drosglwyddo ai peidio. Os oedd gennych gopi o'r gwerth trosglwyddo, ni fydd hyn yn rhoi gwybodaeth ystyrlon i chi i wneud eich penderfyniad.

A oes modd trosglwyddo pensiwn blaenorol i'r pensiwn CPLIL? Er enghraifft, y GIG, cynllun pensiwn preifat, gwasanaeth sifil, pensiynau galwedigaethol y sector preifat, pensiwn banc?

Pan fyddwch yn ymuno â'ch cronfa CPLIL, mae gennych 12 mis i ddechrau trosglwyddo unrhyw bensiynau blaenorol. Mae gan eich cyflogwr ddisgresiwn i ymestyn y dyddiad cau hwn, ond does dim rhaid iddynt wneud hynny.

Yn gyntaf, dylech lenwi ffurflen awdurdodi trosglwyddiad ar gyfer pob pensiwn yr ydych eisiau eu trosglwyddo.

Mae derbyn eich ffurflen yn galluogi eich cronfa CPLIL i siarad â'ch darparwyr pensiwn eraill a gofyn iddynt drosglwyddo gwerth y pensiwn sydd gennych chi gyda nhw. Unwaith y bydd eich cronfa CPLIL yn ymwybodol o'r gwerth, gallent roi gwybod i chi faint o bensiwn blynyddol fyddai hynny'n ei brynu i chi yn y CPLIL.

Bydd yn rhaid i chi lenwi mwy o ffurflenni os byddwch yn dewis bwrw ymlaen â'r trosglwyddiad.

A oes modd trosglwyddo Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol i'r prif gynllun pensiwn CPLIL a beth yw'r manteision?

Os oes gennych Gyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol sydd wedi'i gysylltu â'ch buddion CPLIL blaenorol, yna gall hwn gael ei drosglwyddo drosodd i'ch cronfa CPLIL newydd. Fodd bynnag, byddai'r Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol yn cael ei drosglwyddo o ddarparwr Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol eich CPLIL blaenorol i ddarparu eich cronfa CPLIL presennol. Golyga hyn y bydd yn parhau i fod yn Gyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol.

Os oes gennych unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol nad ydynt wedi'u cysylltu â'r CPLIL, fe elwir y rhain yn Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol annibynnol. Byddai hyn yn cael ei drin fel cynllun pensiwn preifat. Bydd gennych 12 mis ar ôl ymuno â'ch cronfa CPLIL i drosglwyddo'r Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol i mewn a byddai'n rhoi pensiwn blynyddol i chi o fewn y CPLIL. Nid ydym wedi'n trwyddedu i ddarparu cyngor ariannol. Rhaid i chi ddewis os yw'n well gadael y Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol fel y mae neu ei drosglwyddo i'r CPLIL. Os oes arnoch chi angen cymorth, mae'n bosibl y bydd y Cyrff hyn yn gallu eich helpu chi (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg):

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser>

Os ydw i wedi trosglwyddo fy mhensiwn o bensiynau preifat neu alwedigaethol i fy nghofnod CPLIL. Sut caiff hyn ei dalu pan fyddaf yn ymddeol? A yw'n daliad ar wahân neu a yw'n gysylltiedig â fy mhensiwn CPLIL ers ymuno â'r cynllun?

Pan fydd eich trosglwyddiad o bensiynau blaenorol wedi'i gwblhau, bydd y buddion hynny'n cael eu trosi i fuddion CPLIL. Golyga hyn pan fyddwch yn ymddeol, bydd eich taliad pensiwn misol yn ystyried eich gwasanaeth CPLIL a'ch trosglwyddiadau.

Os digwyddodd eich trosglwyddiad cyn 1 Ebrill 2008, bydd y trosglwyddiad yn rhoi cyfandaliad awtomatig ychwanegol hefyd. Bydd hyn yn cael ei gynnwys pan fyddwch yn derbyn eich taliad cyfandaliad untro ar ddechrau eich ymddeoliad.

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Beth yw'r gwahanol fathau o gyfraniadau ychwanegol?

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY): Gallwch brynu pensiwn ychwanegol trwy dalu CPY yn rheolaidd dros gyfnod o amser, neu trwy dalu un cyfandaliad. Yr uchafswm o bensiwn ychwanegol y gallwch ei brynu yw £8,903 (mae'r ffigwr hwn yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chostau byw). Mae cost y CPY yn dibynnu ar faint o bensiwn ychwanegol yr ydych am ei brynu, yr oedran y byddwch yn dechrau talu cyfraniadau ychwanegol a hyd yr amser yr ydych eisiau eu talu.

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY): Mae CGY yn ddewis cynilo pensiwn ychwanegol sydd ar gael i aelodau'r CPLIL. Mae'n eich galluogi chi i gyfrannu arian ychwanegol o'ch cyflog (hyd at 100% o'ch cyflog pensiynadwy) i bot ar wahân sy'n tyfu yn seiliedig ar eich buddsoddiadau dewisol. Mae'r cyfraniadau hyn yn cael eu cymryd cyn treth, gan roi gostyngiad yn y dreth i chi, a gellir ei ddefnyddio yn ystod ymddeoliad i hybu eich buddion pensiwn, megis cymryd cyfandaliad heb dreth neu brynu blwydd-dal. Gallwch ddechrau, stopio neu newid eich CGY ar unrhyw adeg, a rhaid i chi gael mynediad atynt pan fyddwch yn cymryd eich prif bensiwn CPLIL.

Gall holl aelodau'r cynllun CPLIL wneud cais am CPY neu CGY (neu yw hyn yn dibynnu ar gynllun cyflogwr/lleol)?

Mae gan holl aelodau CPLIL y dewis i ddechrau CPY neu CGY waeth pa gronfa CPLIL yr ydych ynddo neu waeth pwy yw eich cyflogwr.

Os hoffech wneud cyfraniadau ychwanegol trwy CPY neu CGY, a oes rhaid i'r cyflogwr gynyddu ei gyfraniadau yn unol â hyn? / Os ydych yn prynu CPY a ydych yn derbyn cyfraniadau cyflogwyr ar y rhain hefyd?

Nac ydi, nid yw'n ofynnol gan y gyfraith i'ch cyflogwr gynyddu eu cyfraniadau os ydych yn dechrau gwneud CPY neu CGY. Fodd bynnag, fe ddylai pob cyflogwr gael polisi ar gyfer p'un a ydynt yn cynnig Rhannu Cost CPY a Rhannu Cost CGY. Dylech siarad ag adran AD eich cyflogwr yn uniongyrchol i weld beth yw eu polisi nhw ar hyn. Mae rhannu cost yn golygu y byddai eich cyflogwr yn talu i'ch CPY neu CGY gyda chi. Gan nad yw'n orfodol, bydd yn rhaid i chi wirio p'un a yw hyn yn rhywbeth y mae eich cyflogwr yn ei gynnig ac ar ba delerau.

Sut ydych chi'n ymuno â CPY?

Os hoffech chi brynu pensiwn blynyddol ychwanegol drwy CPY, ymwelwch â (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg):

<https://www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-extra-pension-calculator/>

Cyfrifiannell CPY ar-lein a ddefnyddir i benderfynu p'un a hoffech chi dalu CPY a faint fyddai'n ei gostio i chi yw hwn. Os ydych chi'n hapus â'r ffigyrau ar y gyfrifiannell, mae ffurflen y gallwch ei chwblhau drwy'r gyfrifiannell. Dylech gwblhau a dychwelyd y ffurflen i'r gronfa CPLIL. Fel rhan o broses eich cronfa CPLIL, bydd yn rhaid i chi gael tystysgrif feddygol wedi'i llofnodi gan eich meddyg (chi fydd yn talu am hon) i gadarnhau bod eich iechyd yn gymharol dda cyn y gallwch chi ddechrau talu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol.

Allwch chi gymryd eich pensiwn CGY yn gynt na'ch prif CPLIL? / Allwch chi gymryd eich CGY ar ôl cymryd eich pensiwn CPLIL?

- Os wnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, gallwch ddewis peidio â chymryd eich cynllun CGY pan fyddwch yn cymryd eich prif fuddion CPLIL. Gallwch adael eich cynllun CGY sydd wedi'i fuddsoddi a'i ddefnyddio yn ddiweddarach, ond rhaid i chi ei gymryd erbyn y byddwch yn 75 oed.
- Os ydych wedi talu cyfraniadau CPLIL ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014, rhaid i chi gymryd eich cynllun CGY ar yr un pryd â'ch prif fuddion CPLIL.

Beth yw'r terfyn oedran ar gyfer cyfraniadau ychwanegol?

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY): Gallwch dalu am y pensiwn ychwanegol fesul tipyn drwy gyfraniadau rheolaidd o'ch cyflog, neu dalu'r swm cyfan ar unwaith. Serch hynny, nid yw'r opsiwn o wneud cyfraniadau rheolaidd ar gael os:

- ydych chi o fewn 12 mis i'ch Oedran Ymddeol Arferol
- os ydych chi dros eich Oedran Ymddeol Arferol

Os oes rhai o'r uchod yn berthnasol i chi, dim ond drwy wneud cyfandaliad y gallwch chi brynu pensiwn ychwanegol. Gallwch wneud cyfandaliad hyd at 75 mlwydd oed.

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY): Gallwch dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol hyd at 75 mlwydd oed. Serch hynny, os ydych chi'n dechrau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, byddwch angen digon o amser rhwng ei ddechrau ac ymddeol i'r cyfraniadau gael eu buddsoddi a'u rhyddhau. Felly, efallai na fydd hi bob amser yn ymarferol i ddechrau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn agos at ymddeol.

Ymddeoliadau**Pa oedran y gallwch ddechrau tynnu eich pensiwn Llywodraeth Leol? Fe grybwyllodd 55, ond roeddwn yn ansicr ynghylch beth oedd hyn.**

Yr oedran ieuengaf y gallwch ymddeol o CPLIL ar hyn o bryd yw 55. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os oes rhaid i chi gymryd eich pensiwn yn gynnar oherwydd salwch.

Hoffwn ymddeol yn gynnar yn 62 oed. Alla i gymryd fy mhensiwn gostyngedig ar unwaith?

Os ydych yn gadael eich swydd rhwng 55 a'ch oedran pensiwn y wladwriaeth, gallwch gymryd eich pensiwn ar unwaith gyda gostyngiadau. Gelwir hyn yn ymddeoliad cynnar.

Os ydych yn dewis peidio â chymryd cyfandaliad heb dreth, ydych chi'n colli'r budd di-dreth wrth fynd ymlaen?

Os gwnaethoch ymuno â CPLIL cyn 1 Ebrill 2008, byddwch yn cael cyfandaliad di-dreth awtomatig beth bynnag.

Os gwnaethoch ymuno â CPLIL ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008, ni fyddwch yn derbyn cyfandaliad oni bai eich bod eisiau trosi eich pensiwn blynyddol yn gyfandaliad. Nid oes rhaid i chi drosi pensiwn i wneud cyfandaliad os nad ydych yn dymuno.

- Mae cyfandaliadau fel arfer yn ddi-dreth
- Mae pensiynau blynyddol yn incwm felly bydd y swyddfa dreth yn rhoi gwybod i'ch cronfa CPLIL pa god treth i'w ddefnyddio. Os yw eich holl incymau o dan drothwy penodol, ni fydd angen i chi dalu treth ar eich pensiwn blynyddol. Y trothwy ar gyfer 2025/2026 yw £12,570 y flwyddyn.

Efallai y byddaf yn dechrau cymryd pensiwn o gynllun arall. A fydd hyn yn effeithio ar fy mhensiwn CPLIL? Oes angen rhoi gwybod i'r CPLIL? Byddaf yn parhau i weithio ac i dalu i'r CPLIL.

Bydd yn rhaid i chi siarad â'r gronfa CPLIL y byddwch yn derbyn y pensiwn ganddynt i roi gwybod iddynt eich bod yn dal i dalu cyfraniadau CPLIL i gynllun arall. Mae gan bob cronfa CPLIL eu polisi eu hunain o ran p'un a oes angen iddynt leihau neu ddod â phensiwn CPLIL i ben os yw'r pensiynwr yn dal i dalu cyfraniadau CPLIL i mewn i rywle arall.

PENSIWN

15 - 19 Medi 2025

Rwyf wedi drysu gyda'r rheol 85 mlynedd. Rwy'n credu ei fod dan ddisgresiwn y cyflogwr cyn 60 oed ond yn orfodol ar ôl 60. Sut mae'r diogeliad hwn yn gweithio ar rannau gwahanol o'r pensiwn?

Os ydych chi'n gymwys am y Rheol 85 ac yn ymddeol yn gynnar, neilltuir cyfran o'ch pensiwn ac ni chaiff ei lleihau.

Dim ond os oeddech yn talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL cyn 1 Hydref 2006 y byddwch yn gymwys ar gyfer y Rheol 85. Rydych yn bodloni'r Rheol 85 os yw:

- Eich oedran pan fyddwch chi'n cymryd eich buddion CPLIL + Nifer y blynyddoedd yr ydych wedi talu cyfraniadau pensiwn i mewn i'r CPLIL = 85 neu fwy

Os ydych chi'n bodloni Rheol 85, fe'i gweithredir yn awtomatig os byddwch yn dechrau cymryd eich pensiwn yn 60 oed.

Os ydych chi'n bodloni Rheol 85 ac yn dymuno cymryd eich pensiwn cyn i chi droi'n 60 oed, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd eich cyflogwr er mwyn gweithredu'r rheol. Os nad yw eich cyflogwr yn rhoi caniatâd, gallwch barhau i gymryd eich pensiwn, ond fe fydd yn is na'r swm y byddech wedi'i dderbyn pe bai'r Rheol 85 wedi'i gweithredu.

Mae'r Rheol 85 yn gweithio fel hyn:

Dyddiad Geni	Pensiwn a gronwyd ar neu cyn 31 Mawrth 2008	Pensiwn a gronwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2016	Pensiwn a gronwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020	Pensiwn a gronwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020
Rhwng 1 Ebrill 1956 a 31 Mawrth 1960.	Heb ei ostwng	Taprog: hynny yw wedi ei ostwng yn rhannol ar raddfa symudol	Taprog	Wedi ei ostwng yn llawn
Ar neu ar ôl 1 Ebrill 1960	Heb ei ostwng	Wedi ei ostwng yn llawn	Wedi ei ostwng yn llawn	Wedi ei ostwng yn llawn

Pe byddwn i'n colli fy swydd a oes cyfrifoldeb ar fy nghyflogwr i barhau i dalu eu cyfraniadau (neu'r elfen cyflogwr a gweithiwr)? Os yw hyn yn gywir, pa mor hir fydd rhaid iddynt wneud y cyfraniadau? A yw hyn at oedran ymddeol y wladwriaeth?

Os ydych chi dros 55 oed ac wedi'ch diswyddo neu'n gadael yn sgil effeithlonrwydd y gwasanaeth, mae'n rhaid i chi dderbyn eich pensiwn yn syth. O dan y rheolau presennol, ni fydd y pensiwn yn cael ei ostwng ar gyfer taliad cynnar.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Er nad yw'r pensiwn yn cael ei ostwng, ni fydd yn cael ei gynyddu'n awtomatig chwaith i roi'r pensiwn y gallech fod wedi'i gronni i chi pe baech yn parhau i dalu'r cyfraniadau tan eich oedran ymddeol arferol.

Golyga hyn na fydd eich cyflogwr yn parhau i dalu cyfraniadau ar ôl dyddiad eich diswyddiad. Mae ganddynt y disgrisiwn i roi swm mwy o bensiwn i chi fel rhan o'ch pecyn diswyddo. Mae hyn yn ôl disgrisiwn y cyflogwr ac nid yw'n rhwymedigaeth gyfreithiol. Dylech siarad â'ch cyflogwr yn uniongyrchol i weld beth yw eu polisi nhw ar hyn. Mae pob cyflogwr yn wahanol.

A yw'r CPLIL yn gysylltiedig â mynegai?

Ydi. Pan fyddwch yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn, bydd gwerth eich pensiwn yn cael ei gyfrifo. Mae'r gwerth yn cynyddu yn unol â Mynegai Prisiau Defnyddwyr pob mis Ebrill ar ôl hynny. Mae'r cynnydd costau byw yn digwydd bob blwyddyn am oes.

A oes cynnydd blynyddol mewn pensiwn yn ogystal â chynnydd Mynegai Prisiau Defnyddwyr, fel y dangosir ar y Cyfrifiannell Buddion Ar-lein?

Yr unig gynnydd ar bensiwn CPLIL yw'r cynnydd Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Gweler y cwestiwn uchod am fwy o wybodaeth.

Grantiau marwolaeth a phartneriaid sy'n dal yn fyw

Pa dystiolaeth sydd ei angen er mwyn i fuddiolwr hawlio'r grant marwolaeth a phensiwn goroeswr?

Bydd cyfres o ffurflenni gyda'ch cronfa CPLIL y byddwch angen eu cwblhau i hawlio unrhyw grant marwolaeth neu bensiwn goroeswr. Byddwch yn fuddiolwr os yw'r aelod CPLIL wedi eich enwebu chi i dderbyn holl neu ran o unrhyw grant marwolaeth sy'n daladwy.

Os nad oes unrhyw fuddiolwr wedi cael ei enwebu, bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu o dan ddisgrisiwn y gronfa CPLIL.

Ar gyfer pensiwn goroeswr, byddwn ond angen gweld copïau o dystysgrif marwolaeth yr aelod CPLIL, tystysgrif priodas a thystysgrif geni'r priod. Os yw pensiwn goroeswr yn cael ei dalu i bartner sy'n cyd-fyw, nad oedd wedi priodi'r aelod CPLIL, bydd rhaid iddynt anfon tystiolaeth megis:

- Datganiad cyfrif banc ar y cyd
- Datganiad morgais ar y cyd / Cerdyn Rhent
- Biliau cyfleustodau ar y cyd

Beth sy'n digwydd os byddwch yn marw a heb briodi neu'n cyd-fyw â phartner?

Os ydych yn marw yn y swydd, bydd y grant marwolaeth yn cael ei dalu i bwy bynnag yr ydych wedi'i enwebu i'w dderbyn. Gall hyn fod yn deulu, ffrindiau, elusennau ac ati. Gallwch enwebu mwy nac un person. Bydd y grant marwolaeth dair gwaith eich tâl pensiynadwy tybiedig.

Os nad oes partner, yna ni fydd pensiwn goroeswr yn daladwy.

Os yw fy enwebai ar gyfer buddion marwolaeth yn ddinesydd Almaeneg sy'n byw yn yr Almaen ac os allaf ddarparu manylion cyswllt, fydd hynny'n iawn?

Bydd, gallwn dalu grantiau marwolaeth a / neu bensiynau i gyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu yn y DU neu dramor.

Os fydda i'n marw ac yn aelod actif, a fy mod wedi enwebu fy ngwraig / gŵr, a yw'r taliad yn un cyfandaliad?

Os ydych wedi eu henwebu i dderbyn holl neu ran o'ch grant marwolaeth, yna byddwn yn talu'r swm grant marwolaeth fel cyfandaliad.

Byddent hefyd yn gymwys yn awtomatig ar gyfer pensiwn goroeswr. Bydd angen iddynt anfon copïau i ni o'ch tystysgrif marwolaeth, tystysgrif priodas a'u tystysgrif geni.

Cwestiynau Eraill

Os fydd Deddfau Seneddol yn newid o ran CPLIL pa warantau sy'n diogelu aelodau?

Pan mae rheolau CPLIL wedi newid yn y gorffennol, mae diogeliadau wedi cael ei roi mewn lle i ddiogelu aelodau. Dyma rai enghreifftiau o'r diogeliadau hynny:

- Mae unrhyw fuddion cyn Ebrill 2008 yn parhau ar gyflog terfynol 1/80
- Mae unrhyw fuddion rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014 yn parhau ar gyflog terfynol 1/60
- Dyfarniad McCloud: os ydych yn gymwys ac ar eich ennill o gael cyflog terfynol 1/60 rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022, bydd hyn yn cael ei dalu'n awtomatig i chi yn hytrach na'r rheolau cynllun ECGA presennol
- Pan fydd isafswm oedran ymddeol ac oedran ymddeol arferol yn cynyddu, yn gyffredinol mewn diogeliadau mewn lle fel nad yw'r newid yn digwydd dros nos

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Mae llawer o sôn ar hyn o bryd y bydd y Llywodraeth yn trethu cyfandaliadau di-dreth ac ati. A yw'n debygol y gallent wneud hynny a'i ôl-ddyddio ar gyfer y pensiwn cyfan? Allai hyn fod yn swm cyfandaliad awtomatig neu drosi pensiwn i gyfandaliad neu'r ddau?

Nid oes newidiadau pendant ar dreth ar bensiynau eto. Os oes unrhyw beth yn cael ei nodi yng nghyllideb yr Hydref gan Rachel Reeves, bydd hyn ar gyfer cyfandaliadau untro y bydd pensiynwyr newydd yn eu cymryd ar ddechrau eu hymddeoliad.

Pan fydd y gyllideb wedi bod ar 26 Tachwedd 2025, bydd cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn rhoi gwybod i'r aelodau os bydd unrhyw newidiadau i gyfandaliadau yn seiliedig ar yr hyn a gyhoeddir yn y Gyllideb.

PENSIWN

15 - 19 Medi 2025

Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol

Gwefan aelodau CPLIL Cenedlaethol 	www.lgpsmember.org Cyfrifianellau, fideos, cwestiynau cyffredin, gwybodaeth gyffredinol am y cynllun
	cronfabensiynauclwyd.org.uk pensiynau@siryfflint.gov.uk
	www.oxfordshire.gov.uk/business/oxfordshire-pension-fund Pension.services@oxfordshire.gov.uk
	www.shropshirecountypensionfund.co.uk pensions@shropshire.gov.uk